Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymgorffori Menter yn y Cwricwlwm

## Astudiaeth achos: Raglan CIW VC Primary School




**Mae Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru, Rhaglan yn ysgol gynradd mynediad un dosbarth yng nghefn gwlad Sir Fynwy. Saesneg yw iaith gyntaf y mwyafrif o'r disgyblion, ac mae nifer ohonynt yn teithio i'r ysgol ar y bws o'r ffermydd a'r pentrefi cyfagos. Enillodd yr ysgol Ddyfarniad Cyflwyniad yn rownd derfynol Genedlaethol Y Criw Mentrus yn 2021 gyda'u prosiect 'Virtual Christmas Fayre' gan ennill Dyfarniad Menter Gymdeithasol yn Rownd Derfynol Genedlaethol Y Criw Mentrus yn 2022 am eu prosiect 'Bocs Cwtch'.**

Mae ymgorfforí addysg menter wedi cynorthwyo yn fawr i ddatblygu eu cwricwlwm oherwydd …

**“Mae’n rhoi cyfle i ni gynllunio profiadau dysgu hwyliog a difyr sy’n datblygu sgiliau ein plant ar draws y cwricwlwm a’r Pedwar Diben.”**

Arweinydd Menter

Er mwyn ymgorffori menter, mae’r ysgol gyfan yn ymgymryd â phrosiect blynyddol sy’n gynhwysol ac yn darparu ffocws ar gyfer cynllunio yn y tymor canolig. Mae pob dosbarth yn gwneud gwaith ymchwil, yna yn cynllunio, creu a marchnata eu cynnyrch eu hunain i werthu mewn digwyddiadau cymunedol.

Ar gyfer eu prosiect diweddaraf, sef Ffair Nadolig Ryngwladol, bu’r disgyblion yn cydweithio mewn grwpiau bach i baratoi cyflwyniad i’r pennaeth. Sicrhaodd y plant fuddsoddiad cychwynnol o hyd at £50 gan ei ddatblygu’n elw trwy reoli eu harian yn effeithiol ac ymchwilio i’r deunyddiau crai mwyaf fforddiadwy, heb gyfaddawdu ar ansawdd. Ble’n bosibl, defnyddiwyd adnoddau lleol i greu eu cynnyrch, er enghraifft, lafant o ardd rhiant, deiliant o fferm leol, a rhisgl coeden leol. Prynwyd defnyddiau eraill o’u cyllideb.

Defnyddiodd y disgyblion eu sgiliau creadigol i ddylunio cynnyrch roedd pobl eisiau ei brynu ac yna creu eu cynhyrchion gan ddefnyddio llinell gynhyrchu, fel nad oeddent yn teimlo’n sentimental am eitem benodol. Cynhyrchwyd mwy o gynnyrch nag oedd o blant ym mhob dosbarth er mwyn sicrhau bod digon o ddewis i rieni pob un yn ogystal â chwsmeriaid eraill. Caniataodd adwerthwr dillad lleol i’r disgyblion werthu eu cynnyrch mewn noson siopa Nadolig, gan roi cyfle iddynt dreialu poblogrwydd eu heitemau a hysbysebu’r ffair oedd ar ddod.

Roedd yr adborth ar ansawdd y cynnyrch yn gadarnhaol iawn. Dywedodd aelod o’r gymuned wrth y disgyblion hyd yn oed fod dewis gwell o gynnyrch yn eu Ffair Nadolig Ryngwladol nag yn y ffair grefftau lleol, ac fe wnaethpwyd elw iach a ddefnyddir er budd cymuned yr ysgol. Er enghraifft, defnyddiwyd elw o brosiect menter diweddar i uwchraddio arwyneb maes chwarae’r ysgol i’w wneud yn fwy hwyliog a deniadol i’r plant..









Yn bwysicach fyth, roedd yn galluogi staff i gynllunio prosiect oedd yn ennyn diddordeb y plant ac yn rhoi pwrpas dilys i ddysgu. Datblygodd y disgyblion ystod o sgiliau mewn senario bywyd go iawn a'r canlyniad yn y pen draw oedd gweld y plant yn gwerthu eu cynnyrch, yn gwenu ac yn cofleidio'r cyfle i fod yn entrepreneuriaid ifanc. Mae profi'r rolau creadigol, mentrus hyn yn cynorthwyo i'w paratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn trwy eu haddysgu i reoli arian yn effeithiol, meddwl y tu allan i'r bocs, dyfalbarhau a goresgyn anawsterau gyda gwydnwch.

**"Pan rydyn ni'n mentro, rydw i'n teimlo cyffro oddi mewn i'm stumog."**
Disgybl Blwyddyn 6

**"Cafodd y disgyblion brofiad dysgu dilys a ddatblygodd ystod o sgiliau trawsgwricwlaidd mewn ffordd hwyliog a deniadol. Doedden nhw ddim yn sylweddoli eu bod yn dysgu y rhan fwyaf o'r amser'!** Athro Blwyddyn 4

Mae'r enghreifftiau o'r ffordd y mae'r dull gweithredu ysgol gyfan hwn yn helpu i gyflwyno agweddau ar Feysydd Dysgu a Phrofiad Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys:

- **Mathemateg a Rhifedd**: prisio deunyddiau crai, cynnal ymchwil marchnad, casglu a dadansoddi data, prisio cynhyrchion a chyfrifo elw posibl.
- **Llythrennedd, Iaith a Chyfathrebu**: sgwrs gydweithredol, gwaith grŵp, cyflwyno cynnig i sicrhau'r buddsoddiad cychwynnol, hysbysebu, ac ysgrifennu er perswâd, a thrawsieithu gan mai ffair ryngwladol oedd y digwyddiad menter diweddaraf.
- **Gwyddoniaeth a Thechnoleg**: datrys problemau wrth benderfynu pa ddeunyddiau i'w defnyddio a pham? Er enghraifft, '*A yw'r cynhyrchion yn ecogyfeillgar? Sut gynhyrchwyd y pecynnu?*'
- **Celfyddydau Mynegiannol**: datblygu creadigrwydd a defnyddio gwahanol gyfryngau i gynhyrchu cynnyrch sy'n ddymunol yn esthetig.
- **Iechyd a Lles**: datblygu sgiliau rhyngbersonol wrth weithio fel tîm, datblygu gwydnwch pan nad yw rhywbeth yn gweithio yn unol â'r cynllun, dylunio a chreu cynnyrch sy'n cynorthwyo gyda lles meddyliol y gymuned.
- **Dyniaethau**: archwilio tarddiad deunyddiau crai, ac ymchwilio a ellir eu cyrchu'n lleol a/neu'n gynaliadwy.
- **Cymhwysedd Digidol**: creu taenlenni i reoli costau, creu fideos i farchnata cynhyrchion, a chreu catalogau digidol a hysbysebion.

**"Mae menter yn rhoi cwmpas enfawr o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm i chi a phan fydd gan y plant elw i'w wario, maent yn teimlo'n dda am yr hyn maent wedi'i gyflawni."**
Arweinydd Menter

Yn ogystal â'r prosiectau menter blynyddol, mae'r ysgol hefyd yn cynnal caffi cymunedol gyda'r dosbarthiadau'n cymryd eu tro i gynllunio'r fwydlen, cyfrifo costau ac elw posibl, a choginio'r bwyd. Mae'r ysgol hefyd wedi gweithio gyda Young Money ers 2020 ac wedi'i hachredu fel Canolfan Ragoriaeth mewn Addysg Ariannol. Ymhlith yr adnoddau dosbarth a ddefnyddir i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o arian mae MoneySense, Money Heroes, ac adnoddau Santander ar Twinkl.

## Beth ydych yn bwriadu ei wneud nesaf?

Bydd yr ysgol yn parhau i gynllunio prosiect menter blynyddol, gan ddefnyddio syniad mawr fel lles cymunedol, neu gynaliadwyedd fel ffocws. Hefyd, fel Canolfan Ragoriaeth mewn Addysg Ariannol, bydd yr ysgol yn parhau i ymgorffori addysg ariannol a mentergarwch o fewn ei chwricwlwm ar draws pob grŵp blwyddyn a rhannu arfer gydag ysgolion o bob rhan o ranbarth y GCA.

**"Byddwn yn cynghori pob ysgol sy'n ystyried mentergarwch i roi cynnig arni, gan ei fod yn sbardun mor wych ar gyfer y cwricwlwm newydd, sy'n eich galluogi i gynllunio profiadau dysgu difyr, realistig ac yn y pen draw yn ddifyr i bawb sy'n cymryd rhan. Efallai y byddwch hyd yn oed yn gwneud elw da y gallwch ei wario ar adnoddau newydd."** Pennaeth

**"Mae'r plant eisoes yn gofyn pryd rydym yn mynd i wneud prosiect menter eto."**
Arweinydd Menter



Cyswllt: Catrin Evans
Ebost: EvansC814@hwbcymru.net

*Ydych chi'n cymryd rhan mewn mentrau yn eich ysgol yn barod neu hoffech chi weld sut mae rhoi cynnig arni? I gael digon o ysbrydoliaeth, syniadau a rhagor o astudiaethau achos sy'n dangos sut y gallech ddefnyddio menter fel modd i wella pob agwedd ar y cwricwlwm cynradd, ewch i www.criwmentrus.com neu cysylltwch ag un o'r tîm am gymorth.*

Syniadau Mawr Cymru
Big Ideas Wales

Busnes Cymru | Business Wales

Noddwr Cyswllt
Associate Sponsor
NatWest Cymru